**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**
**Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref KS/03887/17
Jeremy Miles AC
Aelod Cynulliad dros Gastell-nedd
Jeremy.Miles@cynulliad.cymru

24 Tachwedd 2017

Annwyl Jeremy,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Hydref ynghylch Rheilffyrdd y Great Western (GWR).

Fel rydych wedi nodi, nid yw'r cyfrifoldeb am wasanaethau ar Reilffordd y Great Western wedi cael ei ddatganoli eto. Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod yr Adran Drafnidiaeth yn ymwybodol o bwysigrwydd darparu gwybodaeth yn Gymraeg ar wasanaethau rheilffyrdd sy'n teithio i Gymru, a bydd y Llywodraeth yn parhau i wneud hynny.

Byddaf yn codi'r mater hwn yn uniongyrchol gyda GWR a Network Rail cyn bo hir. Mae cyflwyno'r fflyd newydd o drenau GWR yn gyfle i wella'r wybodaeth a ddarperir yn Gymraeg ar eu gwasanaethau, er enghraifft drwy gyhoeddiadau awtomataidd ac ar sgriniau gwybodaeth i deithwyr, a byddaf yn disgwyl iddynt gyflwyno'r gwelliannau hyn.

Gallaf gadarnhau hefyd y bydd y gweithredwr nesaf sy'n cynnal gwasanaethau rheilffyrdd Cymru a'r Gororau yn cysylltu'n ysgrifenedig ac ar lafar â'r cyhoedd ac â theithwyr yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cynigir cyfathrebu â'r cwsmeriaid ynglŷn ag ymholiadau trên, ac mewn ymateb i gysylltiadau drwy'r cyfryngau cymdeithasol, yn Gymraeg ac yn Saesneg, a lle mae staff sy'n siarad Cymraeg ar gael, bydd gwasanaeth yn Gymraeg ar gael mewn derbynfeydd gorsafoedd a swyddfeydd tocynnau. Lle nad oes staff sy'n siarad Cymraeg ar gael, bydd staff sy'n siarad Cymraeg ar gael dros y ffôn neu drwy dechnolegau presenoldeb o bell. Rydym yn disgwyl i'r gweithredwr gynnig hyfforddiant iaith Gymraeg i ganran o'i staff sy'n dod wyneb yn wyneb â chwsmeriaid.

Yn gywir

Ken

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.